



## **Galw am gynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru i roi bôn-gelloedd**

**Nodiadau Briffio Rhestr Fer Cynigion**



## Galw am gynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru i roi bôn-gelloedd

*Mae angen dybryd i gynyddu nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru ar gofrestr aliniedig bôn-gelloedd y Deyrnas Unedig er mwyn darparu triniaeth a allai achub bywydau i bobl o bob oed sydd â chanserau gwaed penodol. Rydym yn galw ar holl aelodau SyM i hyrwyddo cofrestru ar y gronfa ddata er mwyn osgoi marwolaethau ymysg y rhai sy'n aros am roddwr addas.*

## Safbwynt y cynigydd

Hoffai'r cynigydd i SyM hyrwyddo cofrestru ar gofrestr aliniedig bôn-gelloedd y Deyrnas Unedig er mwyn galluogi mwy o bobl i gael trawsblaniadau bôn-gelloedd a allai achub bywydau.

## Maint y broblem

Bob ugain munud, mae rhywun yn y Deyrnas Unedig yn cael diagnosis o ganser gwaed. Yn aml, amnewid ei gelloedd gwaed canseraidd drwy gael rhodd o fôn-gelloedd gwaed gan roddwr addas yw ei obaith gorau o oroesi.

Diffinnir bôn-gelloedd fel 'celloedd arbennig a gynhyrchir gan fêr esgyrn (meinwe fel sbwng a geir yng nghanol rhai esgyrn) a all droi'n wahanol fathau o gelloedd gwaed'.

Trwy amnewid celloedd gwaed sydd wedi eu niweidio am rai iach, defnyddir trawsblaniadau bôn-gelloedd i drin cyflyrau fel lewcemia, lymffoma ac anemia'r crymangelloedd.

Yn ddelfrydol, caiff bôn-gelloedd eu cymryd o aelod o deulu'r unigolyn mae arno eu hangen (brawd neu chwaer sydd fwyaf tebygol o fod yn rhoddwr addas i'ch meinwe chi). Fodd bynnag, yn ôl Gwaed a Thrawsblannu'r GIG, nid yw 65-75% o'r bobl mae arnyn nhw angen y driniaeth hon yn gallu dod o hyd i roddwr addas sy'n frawd neu'n chwaer.

## Y sefyllfa bresennol

Mae yna gleifion o hyd sy'n cael trafferth i ddod o hyd i roddwr addas. Mae hyn yn arbennig o wir ymysg cleifion o gefndir pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Dim ond 14% o'r rhoddwyr ar y gofrestr aliniedig a 22% o'r rhai a recriwtiwyd eleni sy'n dod o'r cefndiroedd hyn.

Yn ôl arolwg 2018 o 2,000 o oedolion gan elusen Anthony Nolan, ni fyddai 61% o bobl yn hoffi rhoi eu bôn-gelloedd am eu bod yn credu nifer o gamdybiaethau am y broses rhoi.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dibynnu ar gofrestr aliniedig bôn-gelloedd y GIG ac Anthony Nolan i ddod o hyd i roddwr addas. Mae'r gofrestr yn cynnwys Anthony Nolan, DKMS UK, Gwaed a Thrawsblannu'r GIG a Chofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru. Ceir hefyd rhwydwaith byd-eang o gofrestri y gellir eu chwilio.

Er bod nifer o sefydliadau eisoes yn weithgar yn y maes, cydnabyddir bod diwallu'r angen am roddwyr bôn-gelloedd addas yn her fawr. Dywedodd DKMS UK bod llawer o bobl yn marw am nad ydynt yn gallu dod o hyd i roddwr.

Ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig, dim ond 2% o bobl sydd wedi'u cofrestru'n rhoddwyr bôn-gelloedd. Mae angen i fwy o bobl ymuno â'r gofrestr ar frys er mwyn canfod mwy o roddwyr addas.

## Dod yn rhoddwr

Gall pobl sy'n dymuno rhoi bôn-gelloedd ymuno â chofrestr y Deyrnas Unedig drwy unrhyw sefydliad neu elusen bôn-gelloedd.

Ymddengys bod pob sefydliad yn canolbwyntio ar recriwtio grwpiau oedran gwahanol i'r gofrestr bôn-gelloedd. Er enghraifft, mae Anthony Nolan yn canolbwyntio ar bobl rhwng 16 a 30 oed ar y sail mai'r grŵp oedran hwn sy'n cynnig y canlyniadau gorau i gleifion. Er mwyn ymuno â'i gofrestr (caiff y data eu cyfuno wedyn yn y gofrestr unigol), gellir llenwi ffurflen gais ar lein.

Byddwch wedyn yn cael cit swabio i'w gwblhau.

Fodd bynnag, mae Gwaed a Thrawsblannu'r GIG yn recriwtio rhoddwyr o'i gronfa o roddwyr gwaed. Mae'n recriwtio o ddau grŵp penodol o roddwyr gwaed:

1. dynion rhwng 17 a 40 oed
2. rhoddwyr duon, Asiaidd, o leiafrif ethnig neu hil gymysg o'r naill ryw neu'r llall, rhwng 17 a 40 oed.

Mae'n canolbwyntio ar y grwpiau hyn am fod y gofrestr yn brin o roddwyr â'r proffil demograffig hwn.

Mae DKMS yn cofrestru pobl rhwng 18 a 55 oed sy'n iach yn gyffredinol ac yn byw yn y Deyrnas Unedig yn barhaol. Gall pobl 17 oed 'gyn-gofrestru' hefyd ymlaen llaw.

Caiff yr holl ddarpar roddwyr eu sgrinio er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rhoi, am fod rhai cyflyrau meddygol yn golygu nad ydynt yn gymwys.

Ar ôl ichi gofrestru, mae'ch manylion yn aros ar y system hyd eich pen-blwydd yn 60. Os canfyddir eich bod yn rhoddwr addas, bydd DKMS yn cysylltu â chi i drafod y camau nesaf.

## Sut allai SyM weithio ar y mater hwn pe câi ei basio?

Byddai ymgyrch lawn yn cael ei datblygu gan FfCSyM pe câi'r cynnig ei basio, gan gymryd i ystyriaeth y datblygiadau ers hynny. Er mwyn helpu i lywio'ch trafodaethau, dyma rai ffyrdd y gallai SyM ystyried gweithio ar y mater hwn.

**Ar lefelau lleol a rhanbarthol**, gallai aelodau SyM gynnal digwyddiadau dros dro mewn mannau cyhoeddus er mwyn helpu i chwalu'r mythau ynghylch rhoi bôn-gelloedd, ac i annog darpar roddwyr i gofrestru ar gofrestr aliniedig bôn-gelloedd y Deyrnas Unedig. Gallai aelodau hefyd gysylltu â changhennau lleol yr elusennau bôn-gelloedd er mwyn helpu i gefnogi eu hymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

**Yn genedlaethol**, gallai FfCSyM weithio gyda sefydliadau sy'n cynnal ac yn hyrwyddo ymgyrchoedd rhoi bôn-gelloedd, a gallai alw ar y Llywodraeth i gynnal ymgyrch wybodaeth gyhoeddus amlwg yn canolbwyntio ar bwysigrwydd rhoi bôn-gelloedd.

## Dadleuon o blaid y cynnig

- Mae angen dybryd i fwy o bobl gofrestru fel rhoddwyr bôn-gelloedd.
- Yn lleol ac yn genedlaethol, gallai llywodraethau a chyrff iechyd wneud llawer mwy i chwalu'r mythau ynghylch rhoi bôn-gelloedd ac i annog mwy o bobl i roi eu bôn-gelloedd. Gallai SyM helpu i sbarduno'r gweithredu.
- Os caiff y cynnig hwn ei basio, gallai ddilyn model llwyddiannus ymgyrch 'Amser i Siarad' a gynhaliwyd gan SyM, ar bwnc rhoi organau, a fu'n fodd i godi ymwybyddiaeth am yr angen i drafod eich dymuniadau gyda'ch anwyliaid.

## Dadleuon yn erbyn y cynnig

- A fyddai gweithio ar y cynnig hwn yn dyblygu gwaith sefydliadau eraill?
- Gan nad yw'r gofrestr bôn-gelloedd yn derbyn rhai dros 55-60 oed, ni fyddai rhai o aelodau SyM yn gallu cofrestru'n uniongyrchol i'r gofrestr. Fodd bynnag, ymgyrch codi ymwybyddiaeth fyddai hon yn bennaf, sydd heb derfyn oedran uchaf.

### Rhagor o wybodaeth

#### Gwaed a Thrawsblannu'r GIG

<https://www.nhsbt.nhs.uk/what-we-do/transplantation-services/stem-cells/>

**DKMS:** <https://www.dkms.org.uk/en>

**Anthony Nolan:** <https://www.anthonynolan.org/facts-and-stats>

#### Cynnwys fideo

Mae'r fideo hwn o DKMS yn dangos y broses hawdd o sut i fod yn ddarpar rhoddwr bôn-gelloedd gwaed:

<https://www.youtube.com/watch?v=QyB686Gnbbg>

## Manylion cyswllt yr adran Materion Cyhoeddus

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynigion neu'r broses cynigion, cysylltwch ag adran Materion Cyhoeddus FfCSyM.

**Post:** National Federation of Women's Institutes, 104 New Kings Road, London, SW6 4LY

**Ffôn:** 020 7371 9300

**E-bost:** [publicaffairs@nfwi.org.uk](mailto:publicaffairs@nfwi.org.uk)

**Gwefan:** [thewi.org.uk](http://thewi.org.uk)